Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

Dydd Mercher, 17 Hydref 2018

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# Cyngor Sir

## Dydd Iau, 25ain Hydref, 2018 at 2.00 pm,

## AGENDA

*Prayers will be said prior to the Council meeting at 4.55pm. All members are welcome to join the Chairman for prayers should they wish to do.*

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| **1.** | **Ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| **2.** | **Fforwm Agored i'r Cyhoedd** | |
| **3.** | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| **4.** | **Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau** | 1 - 2 |
| **5.** | **Cyflwyniad i'r Cyngor - Datblygiad Fy Ffrindiau a'i lwyddiant hyd yma.** | |
| **6.** | **Rhestr o Gynigion** | |
| **6.1.** | **Oddi wrth y Cynghorydd Sirol D. Batrouni**<br><br>Bod Cynghorwyr Sir Fynwy yn credu y dylai pob aelod o staff a gyflogir gan y Cyngor, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, cael cynnig contract parhaol os ydynt yn gweithio lleiafswm rheolaidd o oriau dros gyfnod o ychydig fisoedd. | |
| **6.2.** | **Oddi wrth y Cynghorydd Sirol Phil Murphy**<br><br>Mae'r Cyngor hwn:<br><br>Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi cael cynnydd o 5.6%, sef £1.2 biliwn yn ei chyllideb gan Lywodraeth y DU ar gyfer 2019/20.<br><br>Yn difaru penderfyniad Llywodraeth Cymru i leihau gwariant Llywodraeth Leol gan 3.2%, ar gyfartaledd, mewn termau real. | |

| | |
|---|---|
| | Yn difaru ymhellach bod Sir Fynwy unwaith eto wedi cael y toriad dyfnaf o unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru, gan golli £962,000 ac yn mynegi pryder am yr effaith y gallai toriadau Llywodraeth Cymru ei chael ar addysg, gofal cymdeithasol a gwasanaethau hanfodol eraill ar gyfer pobl Sir Fynwy.<br><br>Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailystyried ei blaenoriaethau ar fyrder i osgoi toriadau niweidiol mewn gwasanaethau lleol. |
| 6.3. | **Oddi wrth y Cynghorydd Sirol A. Davies**<br><br>Bod y cyngor hwn yn cymryd camau brys i ddarparu'r adnoddau angenrheidiol i gynnal adolygiad manwl o'n systemau caffael presennol gyda'r bwriad o nodi a gweithredu arbedion posibl o ran costau. |
| 6.4. | **Oddi wrth y Cynghorydd Sirol M. Feakins**<br><br>Mae effeithiau ailbrisio ardrethi busnes gan Lywodraeth Cymru bellach yn cael eu teimlo ledled ein sir. Mae masnachwyr yn ein trefi, yn gyffredin ag eraill ledled y DU, yn wynebu pwysau digynsail yn sgil newidiadau mewn arferion siopa, yn enwedig cystadleuaeth gan gwmnïau masnachu ar y rhyngrwyd. Mae ailbrisiad Llywodraeth Cymru wedi rhoi pwysau ychwanegol ar ein masnachwyr canol tref yn Sir Fynwy. Ni all fod yn iawn fod gwerthoedd ardrethol manwerthwyr yng Nghaerdydd wedi dangos gostyngiad o bron 10% ar gyfartaledd tra bod y rhai yn Sir Fynwy wedi cynyddu mwy nag 11%; fwy na dwywaith lefel unrhyw awdurdod yng Nghymru.<br><br>Mae'r cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru, gyda'i phwerau trethu newydd, i ddileu'r system ardrethi busnes sydd wedi dyddio a rhoi yn ei lle system sy'n deg i bawb ac sy'n rhoi gobaith i ganol ein trefi yn y dyfodol. |
| 7. | **Cwestiynau'r Aelodau:** |
| 7.1. | **O'r Cynghorydd Sirol D. Batrouni i'r Cynghorydd Sirol R. Greenland**<br><br>Faint o Wleddoedd Nadolig sydd wedi'u harchebu yng Nghastell Cil-y-coed eleni? |
| 7.2. | **O'r Cynghorydd Sirol D. Batrouni i'r Cynghorydd Sirol R. John**<br><br>Sawl ysgol yn Sir Fynwy sydd wedi derbyn y rhaglen hyfforddi dysgu gydag Awtistiaeth? |
| 7.3. | **O'r Cynghorydd Sirol J. Pratt i'r Cynghorydd Sirol P. Murphy**<br><br>Pam mae'r cyllid ar gyfer y flwyddyn nesaf o Lywodraeth Cymru yn ostyngiad o 1% pan mae'r Ysgrifennydd Gwladol, Y Gwir Anrh Alun Cairns AS wedi cytuno ar becyn ariannu newydd i Gymru sy'n rhoi £120 |

| | | |
|---|---|---|
| | am bob £100 a werir yn Lloegr? A yw'r Cynghorydd Murphy yn cytuno nad yw'r ffaith bod y Weinyddiaeth Lafur yn rhoi'r bai ar San Steffan yn adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa a pha gynrychiolaeth yr ydym yn ei gwneud i Lywodraeth Cymru ym Mae Caerdydd i fynnu setliad gwell i drigolion Sir Fynwy? | |
| **7.4.** | **O'r Cynghorydd Sirol y Parchedig M. Lane i'r Cynghorydd Sirol R. John**<br><br>Pa gamau mae'r awdurdod yn eu cymryd i baratoi ar gyfer cyflwyno gofal plant 30 awr am ddim o Ionawr 2019? | |
| **7.5.** | **O'r Cynghorydd Sirol A. Easson i'r Cynghorydd Sirol B. Jones**<br><br>O ran craffu ar broses dreulio gwastraff bwyd anaerobig Blaenau'r Cymoedd, sef cydweithrediaeth rhwng yr awdurdod hwn a Chynghorau Bwrdeistrefi Blaenau Gwent a Thorfaen, a yw'r Cynghorydd Jones, yr Aelod Cabinet sy'n gyfrifol, yn hyderus bod y gwaith yn ddichonadwy? A yw'n hyderus bod gwaith craffu gan y pwyllgor Dethol Cymunedau Cryf (o'r broses gaffael a gynhaliwyd gan yr awdurdod arweiniol) wedi meddu ar yr holl ffeithiau a oedd yn ymwneud ag opsiynau ar gyfer gweithredu? | |
| **8.** | **I gadarnhau cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Sir ar 20fed Medi 2018** | 3 - 14 |
| **9.** | **Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 5ed Gorffennaf 2018** | 15 - 20 |
| **10.** | **Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a gynhaliwyd ar 16eg Gorffennaf 2018** | 21 - 24 |
| **11.** | **Adroddiadau Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Diogelu ac Iechyd** | |
| **11.1.** | **Datganiad Polisi Hapchwarae a Chynigion ar gyfer Casinos** | 25 - 90 |
| **12.** | **Adroddiadau'r Prif Swyddog Adnoddau** | |
| **12.1.** | **Ystyried a ddylid gwahardd y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes ganlynol yn unol ag Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd, ar y sail ei bod yn ôl pob tebyg yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf (barn y Swyddog Priodol ynghlwm).** | 91 - 92 |
| **12.2.** | **Adnewyddu Bloc J a chynllun maes parcio Neuadd y Sir - darpariaeth cyllideb ychwanegol** | 93 - 108 |

**Paul Matthews**

## Prif Weithredwr

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Cynghorwyr Sir:

P. Clarke
D. Batrouni
D. Blakebrough
M. Powell
V. Smith
D. Dovey
A. Easson
R. Edwards
D. Evans
P.A. Fox
R.J.W. Greenland
L. Guppy
R. Harris
J. Higginson
G. Howard
S. Howarth
D. Jones
P. Jones
S. Jones
S.B. Jones
P. Jordan
P. Murphy
B. Strong
F. Taylor
A. Watts
A. Webb
K. Williams
J.Becker
L.Brown
A.Davies
L.Dymock
M.Feakins
M.Groucutt
R.John
L.Jones
M.Lane
P.Pavia
J.Pratt
R.Roden
T.Thomas
J.Treharne
J.Watkins
S. Woodhouse

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

## Ein diben

Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy a Chydnerth

**Amcanion y gweithiwn tuag atynt**

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i bobl
- Sir lewyrchus a chysylltiedig
- Cynyddu i'r eithaf botensial yr amgylchedd naturiol ac adeiledig
- Llesiant gydol oes
- Cyngor gyda ffocws ar y dyfodol

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.